Dod ag Elusen/au RAG yn ôl

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 05/12/2022

Yn darfod ar: **05/12/2025**

Crynodeb

Codi a Rhoddi – 'Nôl ag e.

Manylion

Yn 2020, pasiwyd polisi i greu Cronfa Llesiant RAG 'i fynd tuag at les holl fyfyrwyr Aber'. Ers ei greu, mae wedi codi dros £2500 (i'w gadarnhau). Does un geiniog o'r gronfa hon wedi'i gwario eto.

Fel UM rydyn ni'n addo bod yn ddylanwad cadarnhaol a gall codi arian at achosion da fod yn rhan o hynny. Mae angen gwario'r arian yng nghronfa Llesiant RAG yn hytrach na'i gronni mewn pot unig.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dwi'n cynnig ein bod yn dechrau trafodaethau am sut rydyn ni'n gwario ein cronfa ac yn dychwelyd i godi arian at Elusen/au y Flwyddyn a bleidleisiwyd drostynt gan fyfyrwyr.

Mae gan bolisi Cronfa Llesiant RAG flwyddyn yn weddill ond wrth i ni ddod â'r blaenoriaethau RAG yn ôl eleni, credaf mai nawr yw'r amser perffaith ar gyfer ailwampio.

Cyflwynwyd gan: Rachel Barwise

Diweddariadau

Camau a gymerwyd	**Enw a Rôl**	**Dyddiad**
Ambiwlans Awyr Cymru yw'r elusen a gafodd ei bleidleisio yn elusen y flwyddyn academaidd ar gyfer eleni gan y Myfyrwyr yn ystod ffair Wythnos y Croeso	Tiff, Cyfleoedd Myfyrwyr, 2023-2025	Hydref 2023
Nid yw'n ofynnol i grwpiau myfyrwyr godi arian i'r elusen hon os ydynt yn dynodi elusen benodol ar gyfer eu gweithgareddau Codi a Rhoddi.	Tiff, Cyfleoedd Myfyrwyr, 2023-2025	Mehefin 2024

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024, fe godwyd £2,732 at Wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru gan fyfyrwyr.	Tiff, Cyfleoedd Myfyrwyr, 2023-2025	Gorffennaf 2024
Wedi bwrw 989 o bleidleisiau yn Ffair y Glas, mae'r myfyrwyr wedi dewis New Pathways fel yr Elusen Rhoddi a Chodi Swyddogol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025-2026, gan fynd â 37% o'r bleidlais. Elusen hollbwysig yw New Pathways sy'n darparu cymorth arbenigol ar gyfer goroeswyr trais rhywiol ac yn cynnal hyfforddiant ar ei atal a sut mae cynnig cymorth ystyrlon. I gael gwybod pellach am ei waith, gweler ei wefan.	Ffion, Cyfleoedd Myfyrwyr 2025-2026	Cyfleoedd Myfyrwyr 2025
Elusen RAG y flwyddyn yw Trans Aid Cymry	Francesco, Cyfleoedd Myfyrwyr	Cyfleoedd Myfyrwyr 2026